OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3232 (Cy.312)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *9 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2004* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 163(3)(b) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2004.

**2.** Mae'r Rheoliadau yma yn gymwys i Gymru.

**3.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw arolygiad cyn 1 Ionawr 2006 o ysgol a oedd ar 31 Rhagfyr 2003 wedi'i chofrestru dros dro yn unol ag adran 465(3) o Ddeddf Addysg 1996(**2**).

**Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu**

**4.** Pan fydd yr awdurdod cofrestru yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad arolygu a wnaed o dan adran 163(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002 cael ei gyhoeddi, rhaid i'r person a gynhaliodd yr arolygiad —

(a) anfon copi o'r adroddiad arolygu, ac unrhyw grynodeb o'r adroddiad hwnnw at y perchennog, a

(b) rhoi copi o'r adroddiad arolygu, ac unrhyw grynodeb o'r adroddiad hwnnw, ar y rhyngrwyd ar ei wefan.

(**1**) 2002 p.32; *gweler* adran 212(1) am y diffiniad o "regulations", yn eu rhinwedd hwy y mae'r Rheoliadau hyn a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gymwys mewn perthynas â Chymru'n unig. Mae adran 212(1) yn diffinio "prescribed" hefyd.

(**2**) 1996 p.56.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*

9 Rhagfyr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn manylu ar sut y mae adroddiad arolygu i'w gyhoeddi pan fydd ei gyhoeddi yn ofynnol gan yr awdurdod cofrestru wedi i ysgol annibynnol gael ei harolygu gan y Prif Arolygydd neu gan un arolygydd cofrestredig neu fwy o dan adran 163(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002.